




Hwyluso defnydd y Gymraeg yn y gweithle





Pecyn Sgwrsio


Cyflwyniad

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys syniadau i arweinwyr a rheolwyr er mwyn hwyluso defnydd y Gymraeg yn y gweithle.

Mae gan arweinwyr a rheolwyr ran ddylanwadol a phwysig i'w chwarae wrth hwyluso defnydd y Gymraeg gyda cydweithwyr. Mae modelu ymddygiad sy'n cyfleu ymrwymiad a pharch tuag at y Gymraeg yn dangos fod croeso i'r iaith yn y gweithle.

Gall hyn sbarduno siaradwyr i ddefnyddio mwy, sbarduno rhai sydd heb ddefnyddio'r Gymraeg ers tro i ailgysylltu, sbarduno dysgwyr i roi cynnig arni, a sbarduno rhai sydd ar gychwyn eu taith i fynd amdani gan weld gwerth mewn gwneud hynny.

Dyma ambell syniad a chyfle i roi hyn ar waith.



Pecyn Sgwrsio


Defnydd dydd i ddydd

Beth am gyfarch cydweithwyr yn y Gymraeg?

English	Cymraeg
Good morning	Bore da
Good afternoon	Prynhawn da
How are you?	Shwmae? / Su' mae? / Sut wyt ti?
Good weekend?	Penwythnos da?
See you soon	Welai di'n fuan/ Gwela i ti'n fuan/ Mi wela i di'n fuan
Goodbye	Hwyl fawr

Beth am groesawu'r Gymraeg yn weledol?

- Gwisgo bathodyn laith Gwaith
- Cynnwys symbol laith Gwaith a datganiad yn eich llofnod e-bost
- Defnyddio cefndir rhithiol dwyieithog mewn cyfarfodydd ar-lein



Pecyn Sgwrsio


Beth am rannu eich taith gyda'r iaith?

Os yw defnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destun proffesiynol yn newydd i chi, neu os nad ydych chi wedi defnyddio'r Gymraeg ers peth amser, beth am...

- Siarad yn onest gyda'ch tîm am eich profiad o ailgysylltu gyda'r Gymraeg
- Ysgrifennu blog ar gyfer eich mewnwyd am eich taith
- Annog eraill i rannu eu profiadau gyda'r Gymraeg

Beth am ddefnyddio arfer dda wrth sgwrsio gyda dysgwyr?

- Dylech osgoi cywiro neu bod yn negyddol
- Dylech osgoi gorffen brawddegau drostynt
- Dylech fod yn amyneddgar, gwrando'n astud a siarad yn bwyllog ond naturiol.



Pecyn Sgwrsio

Defnydd yn eich rôl

Beth am agor a chau pob cyfarfod mewnol yn y Gymraeg?


English	Cymraeg
Welcome	Croeso
Thank you for your time	Diolch am eich amser
Thank you for your contributions	Diolch am eich cyfraniadau
Goodbye	Hwyl fawr

Beth am hwyluso defnydd Cymraeg eich staff yn eu gwaith drwy...

- Ddatblygu rhestr o eirfa gyffredin ddwyieithog sy'n berthnasol i waith eich tîm
- Cynnwys amcan sy'n ymwneud â defnyddio'r Gymraeg o fewn cynlluniau datblygiad proffesiynol eich tîm
- Darparu adnoddau a thempledi dwyieithog

Beth am roi cynnig ar gynnal cyfarfodydd un-i-un yn Gymraeg?

- Os ydych yn siarad Cymraeg, gallwch gynnig y cyfarfod llawn yn Gymraeg
- Os ydych yn dysgu Cymraeg, gallwch gynnig rhan o'r cyfarfod yn y Gymraeg
- Os ydi defnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destun proffesiynol yn newydd i chi, gallwch gynnig rhan o'r cyfarfod yn Gymraeg, neu ymrwymo i gynyddu defnydd dros amser



Pecyn Sgwrsio

Beth am gynnal sesiwn sgwrsio?

- Oes gennych chi staff sydd wedi dysgu Cymraeg yn yr ysgol, ond heb ei ddefnyddio ers peth amser?
- Oes gennych chi staff sy'n mynychu dosbarthiadau Cymraeg, ond heb gymryd y naid i'w defnyddio yn y gweithle eto?
- Oes gennych chi staff sy'n rhugl ond efallai ddim yn teimlo'n hyderus i newid i'r Gymraeg yn y gwaith?
- Gall creu cyfleoedd i bobl ymarfer mewn gofod anffurfiol, heb bwysau fod yn fuddiol
- Un ffordd o wneud hyn yw i gynnal sesiwn sgwrsio. Gall fod yn sesiwn reolaidd, neu gallwch drefnu rhai achlysurol sy'n gweithio o gwmpas patrwm a phwysau gwaith eich staff
- Mae'n debygol y bydd amrywiaeth o lefelau iaith o fewn eich sefydliad - pwrpas y sesiwn sgwrsio i'w i ddod â siaradwyr o bob lefel at ei gilydd a chreu cyfle i gydweithwyr ddysgu oddi wrth ei gilydd
- Mae rôl yr hwylusydd yn allweddol er mwyn sicrhau fod pawb ar yr un dudalen
- Mae cyngor ymarferol ar [hwyluso sgysiau gyda dysgwyr](#) ar gael ar wefan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Mae awgrymiadau ar sut i drefnu, cynnal a gwneud y mwyaf o sesiwn sgwrsio ar y dudalen nesaf.

